'CH"

**Gwenda Roberts**

---

**From:** Emma Hanson <Emma.Hanson@clwydalyn.co.uk>
**Sent:** 31 January 2025 12:16
**To:** Emma Hanson
**Subject:** CYNLLUNIAU AILDDATBLYGU PENTREF Y PWYLIAID YN SYMUD YMLAEN. I PENRHOS POLISH VILLAGE REDEVELOPMENT PLANS MOVE FORWARD

Prynhawn da,

Rydym yn falch o ddweud fod cynnydd yn cael ei wneud gyda ailddatblygu Pentref y Pwyliaid Penrhos. Er nad yw'r gwaith adeiladu wedi dechrau'n swyddogol eto, mae'r gwaith paratoi yn dod yn ei flaen yn dda, ac yn barod ar gyfer dod â'r gweithwyr i'r safle.

Penodwyd Williams Homes (Y Bala) i ailddatblygu Pentref y Pwyliaid Penrhos, ar ran ClwydAlyn ac mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae Williams Homes yn gwmni adeiladu lleol, uchel ei barch yng Ngwynedd sydd wedi cydweithio â ni ar wahanol brosiectau dros y blynyddoedd. Enillwyd y gontract yn dilyn proses dendro gystadleuol drwy Gynghrair Caffael Cymru.

Cyn dechrau adeiladu'r cartrefi newydd, bydd yr adeiladau gwag yn cael eu dymchwel (byddant wedi'u dymchwel yn llwyr erbyn diwedd mis Mawrth). Hefyd, yn unol â'r gofyniad, trefnwyd bod y gwaith angenrheidiol i dorri coed yn dechrau ar y 3ydd Chwefror er mwyn osgoi tarfu ar adar, ystlumod a bywyd gwyllt lleol. Rydym hefyd yn bwriadu plannu coed newydd a chwblhau gwaith tirlunio ac ecolegol.

Mae cam cyntaf y prosiect wedi ei wneud yn bosib diolch i fuddsoddiad o grant gan Llywodraeth Cymru yn dilyn trafodaethau rhwng ClwydAlyn, Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru.

Mae gan Penrhos dreftadaeth gyfoethog a chymuned ffyniannus, ac er mwyn sicrhau bod y pentref yn aros yn lle diogel a hapus i breswylwyr am flynyddoedd i ddod, mae angen buddsoddiad sylweddol yn y cartrefi presennol i sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau heddiw.

Bydd cam cyntaf y prosiect yn cynnwys 44 o gartrefi ynni-effeithlon, am oes. Bydd y cartrefi newydd hyn yn bodloni ac yn rhagori ar y safonau rheoleiddio presennol: Safon Ansawdd Tai Llywodraeth Cymru a Gofynion Datblygu Ansawdd Llywodraeth Cymru.

Ar ôl cwblhau'r cartrefi, bydd preswylwyr presennol Pentref y Pwyliaid Penrhos, a phobl sydd ag anghenion gofal a chymorth isel i ganolig yn y gymuned leol, yn cael blaenoriaeth pan fyddant yn cael eu dyrannu.

**Camau i'r dyfodol**

Yn unol â'r arfer, rydym yn dal i weithio gyda Chyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, chithau, a'r gymuned leol i ystyried y mathau o eiddo a'r defnydd o'r safle ar gyfer camau nesaf y datblygiad i sicrhau bod y safle yn bodloni anghenion tai a gofal lleol y gymuned leol.

**Datblygu Cartref Gofal Newydd**
Mae Cyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn dal i weithio ar brosiect uchelgeisiol ar gyfer datblygu cartref gofal a nyrsio newydd 56 gwely a fydd yn darparu cymysgedd o ofal preswyl, dementia, a nyrsio ar safle Penrhos. Fel y gwyddoch, derbyniwyd arian gan Lywodraeth Cymru i symud ymlaen â cham nesaf yr achos busnes ym mis Gorffennaf 2024. Ar hyn o bryd, mae cynlluniau yn cael eu llunio ac mae ymgynghorwyr wedi cael eu penodi i baratoi cais cynllunio. Mae'r tai a'r cartref gofal yn cael eu datblygu ar wahân, ond byddant yn cyd-fynd â'i gilydd i sicrhau bod safle Penrhos yn parhau i fod yn rhan werthfawr o'r gymuned ehangach.

Hefyd, rydym yn falch o ddweud fod Pentref y Pwyliaid Penrhos wedi cael sylw ar raglen The One Show, nos Fercher, 29 Ionawr: The One Show - 29/01/2025 - BBC iPlayer Rhwng: 18:30 and 21:45

Byddwn yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd drwy gydol y datblygiad.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw ymholiadau am y datblygiad, cysylltwch â Dylan Davies, yr Uwch Reolwr Datblygu Prosiectau drwy e-bostio: dylan.davies@clwydalyn.co.uk.

Cofion,

Emma

---

Good afternoon,

We're pleased to say that positive progress continues to be made on the redevelopment of Penrhos Polish Village. Whilst the official commencement of works has not taken place, pre commencements works has already begun and is very advanced in preparation to getting on-site.

Williams Homes (Bala) have been appointed to redevelop Penrhos Polish Village, on behalf of ClwydAlyn and in partnership with Cyngor Gwynedd, the Welsh Government and Betsi Cadwaladr University Health Board. A trusted local contractor based in Gwynedd; Williams Homes has collaborated with us on various projects over the years. They were awarded the contract following a competitive tender process through the Welsh Procurement Alliance framework.

Ahead of the creation of new homes, demolition of the disused properties will soon take place (with complete removal by the end of March). As are required tree works, which have been scheduled to start week commencing 3rd of February to avoid the disturbance of birds, bats and local wildlife. Also, as part of the development, there are plans to plant new trees, and carry out landscaping and ecology works.

This first phase of the project has been made possible thanks to an investment from a Welsh Government grant following discussions between ClwydAlyn, Cyngor Gwynedd and Welsh Government.